

Cyngor Celfyddydau Cymru

Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

Y Gronfa Ymsefydlogi

Ebrill 2020

Cynnwys

Y gronfa ymsefydlogi	3
Beth yw'r gronfa?	3
Pwy all ymgeisio?	4
Gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol	4
Dyddiadau cau	5
Faint y gallaf ymgeisio amdano?	5
A oes unrhyw un na all ymgeisio i'r gronfa?	5
Ar gyfer beth na ellir defnyddio'r arian?	6
Beth yw blaenoriaethau'r gronfa?	6
Beth yw meini prawf y gronfa?	7
Beth sydd raid ichi ei roi inni?	8
Beth yw'r broses ymgeisio?	8
Cwestiynau cyffredin	9
Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?	9
Manylion banc	10
Ansicr a ydych chi neu'ch cais yn gymwys?	11
Rhyddid gwybodaeth	11
Sut i gwyno	12
Diogelu data	12



Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwydddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Y gronfa ymsefydlogi

- Mae'r gronfa ar gyfer yr artistiaid a'r gweithwyr llawrydd unigol sydd wedi colli incwm oherwydd coronafeirws ac sy'n ystyried addasu'r ffordd y maent yn datblygu eu gwaith creadigol a/neu eu hymarfer yn y dyfodol
- Gallwch ymgeisio am grant am £1,000-£10,000 i'ch helpu i ymsefydlogi, diogelu eich ymarfer creadigol (yn ariannol ac yn greadigol) a buddsoddi mewn cydweithio creadigol a datblygu rhwydweithiau i gynnal eich gweithgarwch proffesiynol yn y dyfodol
- Dylid cyflawni prosiectau neu weithgarwch mewn chwe mis o gael dyfarnu grant
- Mae canlyniadau coronafeirws yn effeithio ar lawer o bobl. Ond mae'n bwysig bod arian yn cael ei roi i'r rheini sydd ei angen fwyaf ac sydd yn y sefyllfa orau i addasu eu hymarfer ar hyn o bryd. Byddem ni felly'n gofyn ichi feddwl yn ofalus a ddylech ymgeisio ai peidio
- Bwriad y broses yw bod yn hawdd a chyflym. Rydym ni'n anelu at brosesu ceisiadau mewn 4 wythnos o'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau a dderbyniwn yn golygu na allwn ni wneud hynny, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi cyn gynted â phosibl

Beth yw'r gronfa?

Ei nod yw cefnogi artistiaid llawrydd ac ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n gweithio yn y sector dielw yng Nghymru sy'n cael anhawster i gynnal eu gweithgarwch creadigol arferol oherwydd effaith coronafeirws.

Mae'r gronfa'n cynnig grant untro i helpu unigolion creadigol i edrych y tu hwnt i'r argyfwng a rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu a chynnal eu gwaith, naill ai'n unigol neu ar y cyd ag eraill. Gall hefyd ariannu unigolion i arwain prosiectau sy'n cefnogi celfyddyd neu gymuned o artistiaid (cyn belled â bod gan yr unigolyn dan sylw hanes o weithio felly).

Ein blaenoriaeth yw cefnogi'r rheini sydd â'r angen mwyaf, yn enwedig y rheini sy'n debygol o gael y budd lleiaf o **Cynllun Cadw Swyddi a Chynllun Cymorth Incwm i Bobl Hunangyflogedig** Llywodraeth Prydain. Lle y gallwch ddefnyddio arian arall i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, efallai y gallwn eich ariannu o'r gronfa yma - ar yr amod nad yw gweithgarwch yn cael ei ariannu ddwywaith.

Rhaid inni allu ariannu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf brys. Ond byddwn ni am ariannu'r prosiectau gorau, a chaiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn meini prawf. Os oes gormod o

geisiadau am yr arian, y meini prawf yma fydd yn sail i unrhyw benderfyniadau rhwng ceisiadau.

Esboniwn y meini prawf yn ddiweddarach yn y canllawiau yma.

Pwy all ymgeisio?

Mae'r grantiau'n agored i:

- gweithwyr proffesiynol llawrydd y mae eu gwaith wedi esgor ar ganlyniadau creadigol uniongyrchol. Mae'n bosibl eich bod yn artist gweledol mewn unrhyw gyfrwng, awdur neu'n ysgrifennwr barddoniaeth, rhyddiaith neu ffuglen, dramodydd, actor neu wneuthurwr theatr, dawnsiwr, cerddor, gwneuthurwr crefftiau neu ddylunydd. Byddwch chi'n cael cyfran sylweddol o'ch incwm o'ch gwaith o greu neu gynhyrchu deunydd artistig, creadigol neu ym maes dylunio gwreiddiol a byddwch chi'n anfonebu am eich gwaith yn uniongyrchol
- gweithwyr proffesiynol llawrydd y mae eu gwaith yn cefnogi'n uniongyrchol wneud a chyflwyno gwaith creadigol gan gynnwys cynnal digwyddiadau. Mae'n bosibl eich bod yn gynhyrchydd theatr, cynllunydd goleuo, hyrwyddwr bandiau, curadur annibynnol neu gynhyrchydd creadigol. Byddwch chi'n cael cyfran sylweddol o'ch incwm o'ch gwaith o gefnogi neu gynhyrchu deunyddiau a digwyddiadau artistig, creadigol neu ym maes dylunio gwreiddiol a byddwch chi'n anfonebu am eich gwaith yn uniongyrchol
- unigolion sydd am weithio gyda'i gilydd fel rhan o grŵp. Bydd raid i un unigolyn ymgeisio fel yr ymgeisydd arweiniol ar ran y grŵp ehangach. (Ond er mwyn cynnig grantiau mor eang â phosibl, ni fyddem ni'n disgwyl i unrhyw unigolyn fod yn rhan o fwy nag un cais unigolyn ac un cais grŵp/ar y cyd)
- rhaid ichi allu dangos eich bod yn gweithio'n llawrydd mewn maes proffesiynol o ymarfer celfyddydol. Os nad yw eich gwaith yn benodol i un gelfyddyd, rhaid ichi esbonio inni sut y mae cyfran sylweddol o'ch gwaith yn digwydd yn sector y celfyddydau dielw a diwydiannau creadigol

Gweithwyr llawrydd yn y Diwydiannau Creadigol

Mae'r grantiau yma'n canolbwyntio ar gefnogi artistiaid ac ymarferwyr creadigol y mae eu gwaith yn digwydd yn bennaf yn y sector dielw a'r rheiny sy'n cynhyrchu neu'n cefnogi fel arall osod y gwaith yma o flaen cynulleidfa.

Nid yw'r rhai sy'n gweithio'n bennaf yn y diwydiannau creadigol ehangach yn gymwys. Rhagwelwn y bydd Llywodraeth Prydain, sefydliadau cymorth penodol i sectorau ac ymyriadau asiantaethau menter yn canolbwyntio ar y maes yma.

Dyddiadau cau

Mae'r gronfa'n agor am geisiadau ar-lein ddydd Gwener 29 Mai 2020 a'r dyddiad cau yw 5pm ddydd Llun 15 Mehefin 2020.

Ond mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle mae'r galw'n llawer uwch na'r disgwyl, efallai y bydd angen inni gau'r broses ymgeisio yn gynharach na'r dyddiad yma.

Faint y gallaf ymgeisio amdano?

Gallwch ofyn am unrhyw swm yn y rhychwant £1,000-£10,000 i'w ddefnyddio mewn chwe mis ar ôl cael y grant.

Gallwch hefyd ofyn am arian ychwanegol am gostau hygyrchedd (gweler y cwestiynau cyffredin).

Byddwn ni'n edrych yn ofalus ar fanteision creadigol a chyhoeddus ceisiadau sy'n gofyn am swm sy'n nesáu at uchafswm y gronfa. Rhaid i'r ceisiadau fod yn briodol i'r swm y gofynnwch amdano.

A oes unrhyw un na all ymgeisio i'r gronfa?

- Y rhai na allant ddangos tystiolaeth o ymarfer creadigol proffesiynol llawrydd yn sector dielw'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol
- Sefydliadau
- Unrhyw un sy'n ennill llai na 50% o'i incwm o waith llawrydd
- Unigolion y tu allan i Gymru
- Unrhyw un sy'n dal yn yr ysgol, neu'n astudio'n llawn amser neu sy'n rhan o raglen tymor hir, ffurfiol neu achrededig mewn coleg neu brifysgol (ar adeg y cais) gan gynnwys myfyrwyr PhD (sy'n cael eu talu am eu hymchwil)
- Academyddion neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg
- Unrhyw un dan 18 oed

Ar gyfer beth na ellir defnyddio'r arian?

Ni allwn ariannu:

- gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â'r celfyddydau
- gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd neu wedi'i amserlennu i ddechrau cyn inni benderfynu ar eich cais
- gweithgarwch sy'n digwydd mewn ysgolion, gan gynnwys datblygu gweithgarwch neu adnoddau ar-lein; cyhoeddwn wybodaeth ar wahân am ariannu gweithgarwch sy'n ymwneud ag ysgolion
- myfyrwyr ar gyfer ffioedd dysgu addysg uwch a chostau cysylltiedig
- offer yn unig
- hunangyhoeddi
- digwyddiadau neu weithgarwch codi arian
- arian ar gyfer prosiectau ffilm/sgrin
- prosiectau na ellir eu cyflawni am eu bod yn mynd yn groes i gyfyngiadau coronafeirws sydd ar waith adeg cynnal y prosiect
- ceisiadau gan bobl sy'n cynhyrchu llai na 50% o'u hincwm drwy eu statws llawrydd. Os cewch fel arfer incwm drwy gynllun Talu Wrth Ennill a golloch o ganlyniad i goronafeirws, mae'n bosibl y gallwch gael arian gwarantu cyflog y Llywodraeth

Beth yw blaenoriaethau'r gronfa?

Mae llawer o ymarferwyr creadigol Cymru yn cael anawsterau ariannol sy'n parhau oherwydd colli enillion o'u gwaith creadigol a/neu eu hymarfer creadigol o ganlyniad i goronafeirws. Ceisio mynd i'r afael â hyn yw diben y gronfa.

Serch hynny mae gennym ddwy flaenoriaeth gyffredinol.

Yr un gyntaf yw cynnal ymarfer artistig, adeiladu gwytnwch ymhlith artistiaid, ystyried ffyrdd newydd o weithio a mentro'n greadigol. Rydym ni am fuddsoddi mewn prosiectau unigol a chydweithiol sy'n cynnig ymateb creadigol i'r cyfyngiadau presennol.

Yr ail un yw annog celfyddydau Cymru i fod yn fwy cynhwysol ac ymgysylltiol. Rydym ni am weld bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yn y prosiectau a ariannwn. Rydym ni hefyd am ymestyn cyrhaeddiad ein harian er mwyn sicrhau bod pobl yn cael rhagor o gyfle i fwynhau gweithgarwch diwylliannol a chymryd rhan ynddo. Rydym ni'n rhoi pwys arbennig ar weithio gyda phobl dduon, phobl Asiaidd, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl fyddar a phobl anabl a throstynt. Byddwn ni'n disgwyl ichi ddangos sut rydych chi wedi ystyried hyn yn eich cais.

Yn ategol i'r ddwy flaenoriaeth yma yw ein hymrwymiad i hyrwyddo gweithgarwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn bwysig iawn inni. Mae Cymru yn genedl ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, o ran unigolion a chymunedau – a'r Gymraeg yn anad dim sy'n nodweddu Cymru. Rydym ni'n disgwyl i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn eu dewis iaith, boed fel aelodau o gynulleidfa, yn gyfranogwyr neu'n artistiaid.

Nid oes rhaid i brosiectau esgor ar ganlyniad cyhoeddus (a dylai unrhyw brosiectau sy'n gwneud hynny wneud yn unol â chyfyngiadau coronafeirws) ond byddwn ni'n disgwyl ichi ddangos sut rydych chi wedi ystyried hyn yn eich cais.

Beth yw meini prawf y gronfa?

Dyma feini prawf asesu:

- tystiolaeth yn eich cais o angen ariannol
- cryfder creadigol a/neu artistig y prosiect neu'r gweithgarwch, neu ei gyfraniad at gefnogi eich ymarfer artistig a/neu greadigrwydd pobl eraill
- i ba raddau y mae'r prosiect neu'r gweithgarwch yn bodloni ein blaenoriaethau
- graddau a chryfder budd cyhoeddus y prosiect neu'r gweithgarwch, nawr ac yn y dyfodol
- cryfder y cynlluniau ymarferol i reoli a chyflawni'r prosiect neu'r gweithgarwch, gan gynnwys cynlluniau ariannol

Rydym ni am sicrhau bod sector y celfyddydau a diwylliant yn cynrychioli orau ein cymdeithas. Gobeithio y bydd yr arian yn galluogi'r amrywiaeth ehangaf o ymarferwyr creadigol i gael digon o incwm fel y gallant barhau i weithio'n llwyddiannus yn y dyfodol. Felly rydym ni'n croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl dduon, phobl Asiaidd, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl fyddar a phobl anabl.

Wrth asesu byddwn ni'n ystyried cydbwysedd y gweithgarwch a'r ariannu ar draws celfyddydau, disgyblaethau, cymunedau a lleoedd Cymru

Beth sydd raid ichi ei roi inni?

Mae'r wybodaeth yn cynnwys:

1. eich manylion cyswllt a phersonol (oni bai eich bod wedi ymgeisio inni o'r blaen drwy ein system ar-lein)
2. esboniad o sut y mae coronafeirws wedi effeithio ar eich gwaith
3. eich cynnig prosiect, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen
4. gwybodaeth gydraddoldeb am eich prosiect
5. cyllideb eich prosiect (rhaid iddi fod ar y templed sydd yn ein ffurflen gais)
6. wrth gyflwyno eich cais, bydd angen ichi gynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sef yr un enw ag sydd yn eich cais. Ni allwn dderbyn ceisiadau dan enw llwyfan, er enghraifft

Rydym ni'n casglu a monitro gwybodaeth am ble yr aiff ein harian, pa fath o weithgarwch y mae'n ei ariannu a phwy sy'n elwa o'r gweithgarwch. Mae hyn yn gymorth gyda'r adroddiadau am effaith ein harian. Mae hefyd yn helpu i gyflwyno achos dros ariannu'r celfyddydau o'r pwrs cyhoeddus.

Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Gofynnwn ichi lenwi a chyflwyno ar-lein y ffurflen gais syml sydd [yma](#). Os nad ydych chi'n gallu cael mynediad i'r ffurflen ar-lein, cysylltwch â ni yn grantiau@celf.cymru
2. Ar ôl derbyn eich cais, byddwn ni'n anfon e-bost o gydnabyddiaeth atoch a fydd yn cynnwys ffurflen monitro cydraddoldebau ichi ei llenwi. Mae hon ar wahân i'r ffurflen gais a'i hunig ddiben yw adrodd am fonitro cydraddoldeb. Ni fydd yn rhan o'n proses o benderfynu ar eich cymhwysedd. Ond mae'n bwysig ichi lenwi'r ffurflen fonitro
3. Byddwn ni'n penderfynu a ydych chi'n gymwys i gael arian drwy ddarllen y wybodaeth yn eich cais. Bydd hyn yn cadarnhau a ydych chi'n artist llawrydd neu'n ymarferwr creadigol llawrydd sy'n gymwys i gael arian o'r gronfa
4. Efallai y bydd angen inni gysylltu â chi i gael esboniad pellach o'r wybodaeth yn eich cais
5. Os penderfynwn roi grant ichi, byddwn ni'n cysylltu i ofyn ichi lenwi a dychwelyd ein nodyn derbyn grant a rhoi eich manylion banc inni

6. Ar ôl ichi ddychwelyd eich nodyn derbyn grant ac ar ôl inni wirio eich manylion banc, byddwn ni'n talu 90% o'r grant
7. Ar ddiwedd eich prosiect neu'ch gweithgarwch, rhaid ichi anfon atom adroddiad diweddu byr fel y gallwn dalu'r 10% sy'n weddill o'ch grant

Dalier sylw:

- Os na allwn gadarnhau eich bod yn artist llawrydd neu'n ymarferwr creadigol llawrydd y mae'ch incwm wedi'i effeithio'n uniongyrchol gan goronafeirws, ni fyddwn ni'n gallu ariannu eich cais
- Byddwn ni'n ymateb i bob cais mewn 4 wythnos o'r dyddiad cau ac yn gyflymach na hynny pan allwn ni. Os caiff ein gallu i weithio ei leihau gan goronafeirws, byddwn ni'n cysylltu â chi i drafod amserlen ddiwygiedig
- Mae'n debygol na chaiff rhai ceisiadau da a diddorol eu hariannu. Mae hyn oherwydd ein bod fel arfer yn derbyn rhagor o geisiadau nag y gallwn eu hariannu. Mae'r galw am ein harian fel arfer yn fwy na'r arian sydd gennym, ac mae hyn yn debygol o barhau'n wir am y dyfodol

Cwestiynau cyffredin

Cyn dechrau llenwi eich cais, dylech ddarllen ein [Cwestiynau Cyffredin](#)

Byddant yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ichi am sut i lenwi eich cais.

Pa gwestiynau fydd angen imi eu hateb?

Byddwn ni'n dechrau gyda chwestiynau sylfaenol amdanoch chi a'ch prosiect. Byddwn ni hefyd yn gofyn am rywfaint o wybodaeth i'n helpu i fonitro ble mae ein harian yn mynd (er enghraifft ble mae eich gweithgarwch digwydd a pha sector o'r celfyddydau rydych chi'n gweithio ynddo).

Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi am y canlynol:

1. Yn fyr sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich incwm llawrydd oherwydd canslo gwaith ar hyn o bryd ac yn y dyfodol?

Beth sydd wedi digwydd i'ch incwm o ganlyniad i goronafeirws? Nid ydym ni'n gallu eich ariannu drwy'r gronfa os nad yw eich amgylchiadau wedi newid oherwydd colli incwm o ganlyniad i goronafeirws

2. Beth yw'ch hanes o weithio yn sector y celfyddydau a diwylliant a ariennir yn gyhoeddus?

Yma rhowch wybod inni amdanoch chi a'ch gwaith. Eich ateb fydd ein sail i benderfynu a yw eich gwaith yn disgyn i un o'n categorïau cymwys.

3. Beth yw'ch prosiect neu'ch gweithgarwch arfaethedig?

Yn ogystal â disgrifiad byr o'r prosiect, esboniwch y syniad artistig a/neu greadigol ar gyfer eich prosiect neu'ch gweithgarwch. Pam rydych chi'n dymuno gwneud hynny a pham nawr (os 'nawr' sy'n wir am eich cais)?

4. Pa wahaniaeth y bydd ein grant yn ei wneud i'ch gwaith?

Sut bydd ein grant yn cyfrannu at eich datblygiad neu ddatblygiad pobl eraill? Pa ganlyniadau rydych chi'n eu disgwyl? A beth allai newid o ganlyniad i'n harian?

5. Sut mae'ch prosiect neu'ch gweithgarwch yn bodloni ein blaenoriaethau?

Beth gallwch ei wneud i gefnogi ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg?

6. Cyllideb

Nodwch incwm a chostau sylfaenol eich prosiect ar ein templed cyllideb

7. Rheoli'r prosiect

Sut byddwch chi'n cynllunio'r prosiect? Pa waith cynllunio rydych wedi'i wneud hyd yn hyn a sut y mae hynny wedi llywio'r ffordd rydych chi'n meddwl am y prosiect? Disgrifiwch beth a wnewch i sicrhau cyflawni eich prosiect yn effeithiol yn yr amgylchiadau presennol.

Manylion banc

- Dim ond i'ch cyfrif personol y gallwn dalu'r grant
- Rhaid i'ch cyfrif fod yn gyfrif banc ym Mhrydain
- Byddwn ni'n talu drwy BACS
- Rhaid i'ch cyfrif fod â'r un enw ag sydd ar eich cais
- Rhaid ichi lenwi a dychwelyd ffurflen manylion banc hyd yn oed os ydych chi wedi derbyn arian gennym yn y gorffennol i'r un cyfrif

Gweler y Cwestiynau Cyffredin am ragor o arweiniad am dystiolaeth fanc briodol.

Ansicr a ydych chi neu'ch cais yn gymwys?

Darllenwch y [Cwestiynau Cyffredin](#)

Mae'r gronfa'n dibynnu ar onestrwydd y ceisiadau. Atebwch bob cwestiwn yn llawn, yn glir ac yn onest. Os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth anghywir inni, efallai y bydd rhaid inni adhawlio arian yn ddiweddarach neu gymryd camau eraill os byddwn ni'n amau twyll. Os ydych chi am gael gwybod a ydych chi neu eich cais yn gymwys, neu i drafod cwestiynau eraill, cysylltwch â ni:

e-bostiwch grantiau@celf.cymru

llenwch ffurflen ar ein [gwefan](#)

anfonwch drydariad atom [@celf_cymru](#)

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn brydlon.

Os ydych chi am inni eich ffonio yn ôl, rhowch eich rhif inni a byddwn ni'n dod yn ôl atoch cyn gynted ag y bo modd.

Rhyddid gwybodaeth

Rydym ni wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym ni'n gwario arian cyhoeddus a sut rydym ni'n gwneud ein penderfyniadau ariannol. Gallwch weld manylion o'n polisi [yma](#)

Rydym ni wedi'n rhestru fel awdurdod cyhoeddus dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid inni ddarparu dogfennau eich cais a gwybodaeth am ein hasesiad ohono i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael eu gweld dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ni allwn ryddhau'r rhannau yna o'r dogfennau y mae un neu ragor o'r eithriadau'n berthnasol iddynt dan y Ddeddf. Ewch i'r [wefan Rhyddid Gwybodaeth](#) i gael gwybodaeth gyffredinol am ryddid gwybodaeth a'r eithriadau.

Sut i gwyno

Os nad ydych chi'n hapus â'r ffordd rydym ni wedi delio â'ch cais, gallwch wneud cwyn. Gallwch weld copi o'n gweithdrefn gwyno ar ein gwefan [yma](#)

Cofiwch mai dim ond os credwch nad ydym ni wedi dilyn ein proses yn gywir wrth ymdrin â'ch cais y gallwch gwyno. Ni allwch gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad yn unig.

Diogelu data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r Rheoliadau'n rheoleiddio sut rydym ni'n casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau mewn perthynas â'n rheolaeth o'ch data.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein [polisi preifatrwydd](#).

Ni fyddwn ni'n datgelu data personol na data personol sensitif (fel y diffinnir y termau yn y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) heb eich cydsyniad oni bai bod rhwymedigaeth arnom (e.e. dyletswydd gyfreithiol).